CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 6 MAWRTH 2018

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng I C Thomas

Cynghorwyr
E R Hughes, B Owen, W L Davies, W T Owen, A Hopcyn, E Lovgreen, C Williams, M Sarnacki, K Jones, C Larsen, J W Parry, K Richards, S Sage, R Thomas, D L Jones

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng W R Owen

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Noson yng Ngwesty'r Celt i'r fyddin
Cystadleuaeth Bandiau yn Galeri
Noson yn y Clwb Ieuenctid
Willow Hall yn dathlu penblwydd unigolyn yn 100

3. **Datgan Buddiant Personol**

W T Owen a E R Hughes fel yn y Panel Cyllid os fydd trafodaeth pellach ar y cais

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 21 Chwefror 2017 **Penderfynwy**d ei dderbyn ar ôl ychwanegu frawddeg am arwydd y siop (unfrydol)
ii. Pwyllgor Gwaith 13 Chwefror 2018 **Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol)**

iii. Panel Cyllid 6 Mawrth 2018

Cafwyd adroddiad lafar o'r canlynol

Ceisiadau Ariannol :

Cyn cychwyn trafod ceisiadau tynnodd y clerc sylw bod mwy o geisiadau wedi dod i law ac felly angen cyfarfod arall cyn diwedd y flwyddyn ariannol . Nododd hefyd bod yn syniad rhoi dyddiadau cyfarfodydd y pwyllgor yma ar y wefan wrth y ffurflen gais fel bod y cyhoedd yn gweld erbyn pa bryd mae angen danfon i mewn . Nodwyd hefyd bod £650 ar ôl yn y pot eraill

i) Theatr Bara Caws
***Penderfynwyd** Cyfrannu £100 o pot eraill (unfrydol)*

ii) Canolfan Gerdd William Mathias
***Penderfynwyd** cyfrannu £200 o pot eraill (unfrydol)*

iii) 'Action on Hearing Loss Cymru'
***Penderfynwyd** cyfrannu dim byd gan bod yn gorff cenedlaethol (unfrydol)*

iv) Eisteddfod yr Urdd 2018
***Penderfynwyd** cyfrannu £250 o'r amcangyfrifon (unfrydol)*

v) Papur Dre
***Penderfynwyd** cyfrannu £500 o'r amcangyfrifon (unfrydol)*

vi) Pauline Down
***Penderfynwyd** cyfrannu £50 allan o pot eraill (o dan Mesur Llywodraeth 2011) ond fydd rhaid gofyn am y gwir gostau wedyn i brofi angen yr arian gan mai unigolyn ydyw (unfrydol)*

vii) Eisteddfod Genedlaethol
***Penderfynwyd** cyfrannu £250 allan or amcangyfrifon (unfrydol)*

viii) Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai
***Penderfynwyd** Cyfrannu £50 allan o pot eraill (unfrydol)*

Pot eraill felly lawr i £250

Llythyr gan Kone parthed y lifft

Llythyr yn nodi bod angen mat arbennig o dan rheolau iechyd a diogelwch

Cymaint ag mae'r Cyngor yn cymryd materion Iechyd a diogelwch o ddifri , roeddem yn nodi siom pam na fysa'r eitem yma ddim wedi ei gynnwys yn y ddogfen tendr wrth roi y lifft newydd i mewn

Penderfynwyd

Ysgrifennu i ofyn y cwestiwn pam nad oedd wedi nodi yn y ddogfen Tendr ac yna ei ail drafod

Sgrin Gisda

Eglurodd y clerc bod aelod o staff Gisda wedi bod yn trafod y sgrin yn ffenestr Gisda , ac yn meddwl y fyddai yn brosiect da i griw o bobl ifanc edrych ar ei redeg . Roedd y clerc wedi holi y person sydd yn ei redeg inni ar hyn o bryd oedd yn dymuno sefyll lawr beth bynnag . Ers y trafodaeth roedd yr unigolyn wedi ysgrifennu i'r clerc yn gofyn i dynnu ei wasanaeth ac angen nol y bocs meddalwedd sydd ar y sgrin ac yn holi am gostau sydd yn weddill **.**

Penderfynwyd

Caniatáu iddo dynnu'r meddalwedd a'r swyddfa i edrych ar unrhyw daliad sydd yn weddill iddo gyda hawl i weithredu . Clerc wedyn i siarad efo Gisda er mwyn symud y prosiect ymlaen efo nhw a rhoi yr hawl iddynt arddangos pethau am eu gweithgareddau nhw yn ogystal a digwyddiadau rydym yn anfon iddynt

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir a mabwysiadu'r holl benderfyniadau (unfrydol ar bob pennawd heblaw am eitem Gisda lle wnaeth W T Owen a E R Hughes ddim cymryd rhan)

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu (unfrydol)

7.Cais Trwyddedu

I ystyried y Cais Trwyddedu

Cafwyd trafodaeth eang ar yr amseroedd gwerthu alcohol a nodwyd pryderon am hyn

Penderfynwyd

Holi'r adran trwyddedu i weld beth sydd yn gyson yn llefydd eraill ac ateb yn ddibynnol a siopau tebyg (unfrydol)

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol**)**

9. Maerolaeth 2018 – 2019

I dderbyn ymateb ymweliad y cynigydd, a'r eilydd a'r Maer Etholedig y Cyng. Eiriona Rees Hughes . Cafwyd adroddiad gan y cynigydd Cyng E Lovgreen a'r Eilydd Cyng M Sarnacki bod Y Cyng E R Hughes yn deall cyfrifoldebau'r swydd ac yn barod iawn i neud y gorau gallai dros y Dre ai phobl

Penderfynwyd

Llongyfarch Cyng E R Hughes (unfrydol)

10.Maerolaeth 2018– 2019

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2018 – 2019

Penderfynwyd

I ethol Cyng W T Owen fel Dirprwy Faer etholedig am y flwyddyn 2018-2019 (15 o blaid , 1 yn ymatal)

11.Cyngor Ynys Môn

Parthed : Adnabod Llecynnau Agored
Cynllun ar y bwrdd

Penderfynwyd

Symud i'r pwyllgor cynllunio nesaf (unfrydol)

12. Unllais Cymru

i) Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor nos Iau 15 Mawrth yn Siambr y Cyngor, Cyngor Tref Pwllheli **Penderfynwyd** Derbyn er gwybodaeth (unfrydol**)**
ii) Tal aelodaeth **Penderfynwyd** talu aelodaeth (unfrydol)
iii) Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol Unllais Cymru **29** Mawrth 2018 **Penderfynwyd** i'r Cyng W T Owen fynychu (unfrydol)
iv) E-bost Parthed Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft **Penderfynwyd** Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)
v) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol **Penderfynwyd** Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

13.Cymorth Cynllunio Cymru

'Pre Application community Application'
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

14. Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Jason Wayne Parry

Parthed : Biniau Baw Cwn
Cafwyd trafodaeth frwd ar y pwnc efo pawb yn cytuno bod yn broblem cyffredinol yn y dref i gyd . Nodwyd bod nifer o drafodaethau wedi bod yn hanesyddol ac mai problem costau gwagio oedd gan Cyngor Gwynedd
Penderfynwyd
Symud yr eitem i'r pwyllgor gwaith nesaf a'r clerc i holi Cyngor Bontnewydd a Chyngor Gwynedd am wybodaeth pellach (unfrydol)

15. Comisiynydd y Gymraeg

Cynghorau Tref a Chymuned – Canllaw i lunio iaith Gymraeg
Penderfynwyd
Mabwysiadu'r ddogfen gan ychwanegu pennawd bod ni yn cyflogi cyfieithydd am 20 munud ac yna yn ei rhyddhau os nad oes defnydd mewn cyfarfod o'r cyngor. Yn ogystal gwneud ymholiad yn gobeithio bod na ddim gwirionedd yn y si bod swydd y comisiynydd yn Gorffennaf (unfrydol)

16.GDPR

Eglurodd y clerc y cefndir bod gwaith sylweddol angen eu wneud ar y pwnc yma . a bod angen gwirfoddolwyr i ddod mewn i helpu gwneud newidiadau i'r swyddfeydd . Hefyd angen chwilio i benodi swyddog data gan bod pryderon na chaiff y clerc fod . Angen penderfyniad ym mis Ebrill neu Mai pan obeithir i fwy o wybodaeth ddod i law
Penderfynwyd
I'r canlynol helpu baratoi'r swyddfa Cyng E R Hughes, Cyng C Williams, Cyng B Owen, Cyng S Sage (unfrydol)

17.**Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

Canllaw i brif Gynghorau ar arolygu cymunedol
Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

18. **E-bost Cadw Cymru'n Daclus**
Penderfynwyd
Symud i'r pwyllgor gwaith nesaf (unfrydol)

19 IRPW Adroddiad blynyddol PACGA

Copi llawn ar y bwrdd
Penderfynwyd
Rhif 44 – talu ar diwedd y flwyddyn ariannol a bod rhaid i pob cynghorydd ysgrifennu mewn yn nodi os yn derbyn neu gwrthod y taliad (unfrydol)
Rhif 45 – ddim yn berthnasol inni
Rhif 46 – talu £500 i gadeiryddion y pwyllgorau yma – Cyllid, Cynllunio, Personél, Adloniant, Pwyllgor Gwaith ac eto angen ysgrifennu mewn i nodi eu dymuniad
47 – 53 heb newid or cynllun drafft felly
Rhif 47 – ddim yn berthnasol inni
Rhif 48 – derbyn
Rhif 49 – derbyn
Rhif 50 – derbyn
Rhif 51 – derbyn
Rhif 52 – derbyn £1500
Rhif 53 - Derbyn £500
(pob un yn unfrydol)

20. Llun o'r Cynghorwyr
Penderfynwyd
Pawb i ddod au clogynnau i'r cyfarfod nesaf ar gyfer tynnu llun a pawb i edrych i weld os oes na ddigon o rhai glas neu angen archebu un i Cyng D Jones (unfrydol)

21. E-bost parthed

Gwelliannau arfaethedig i Ganolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru Llanberis
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

22. Gefeillio

Gan nad oedd y clerc yn bresennol yn y cyfarfod pan basiwyd i'r cyngor ail fabwysiadu'r cyfrifoldeb gofynnwyd a oedd yr hawl ganddi i wario'r pot arian ar gyfer un trefniadau fel bo angen

Penderfynwyd

Caniatáu hyn (unfrydol)

23. Biniau Halen

Penderfynwyd

Symud i'r pwyllgor gwaith a siarad efo swyddogion yn y cyfamser (unfrydol) hefyd gan bod y Maer wedi prynu halen werth £88 punt yn ystod y cyfnod eira Penderfynwyd ad dalu'r arian iddo (unfrydol)

24. Feinciau Rhyfel Byd Cyntaf

Eglurodd y clerc fod caniatâd mewn egwyddor i brynu un fainc eisoes wedi ei basio, ond yn dilyn ymweliad safle efo Swyddog Cyngor Gwynedd y meddylfryd ydi y bydd un yn edrych allan o le gan bod 4 fainc yno yn bresennol felly tybio bod angen 2 .

Penderfynwyd

Prynu dau a Cyng K Jones, Cyng S Sage, Cyng J W Parry ,Cyng K Richards ,Cyng B Owen a Cyng I C Thomas cyfarfod y clerc ar y safle i ddewis y lleoliadau terfynol (unfrydol)

25. Rhybydd o Gynnig Cyng A Hopcyn

Parthed llythyr i busnesau

Eglurodd y clerc i'r cynghorwyr newydd bod na lythyr presennol yn mynd allan i fusnesau newydd yn eu croesawu i'r dref oedd yn dynodi pwysigrwydd ac unigrwydd y iaith Gymraeg ag ati.

Nodwyd bod angen tynnu sylw i'r elfennau twristiaeth yn ogystal

Penderfynwyd

Clerc i benodi dylunydd lleol i greu taflen ellir ei argraffu gan y Cyngor yn ôl y gofyn, ac yna unigolion i fynd a nhw draw wyneb a wyneb pan fydd busnes newydd yn agor yn y dref (unfrydol)

26. **Cwestiynau**

Dim

Gorffennodd y Cyfarfod am 8.10 …….. Dyddiad ……